Adroddiad y Cadeirydd 2022

Cath Lloyd-Williams

Mae hi wedi bod yn flwyddyn heriol a chyffroes yng Nghletwr, gyda rhai newidiadau mawr, a llawer o wynebau newydd. Nid yw hi bob amser wedi bod yn hawdd a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cyd-aelodau o'r bwrdd am eu cefnogaeth ddiddiwedd a'r amser a'r egni aruthrol y maent yn ei wirfoddoli i Gletwr.

Fe wnaethom ffarwelio â nifer o bobl hir sefydlog Cletwr eleni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn unwaith eto i Karen Evans a adawodd ei rôl fel rheolwr busnes, ar ôl bod yn rhan annatod ac ymroddedig o'r busnes o'r cychwyn. Hoffem ddymuno'n dda iddi a diolch iddi am ei gwaith caled dros y blynyddoedd yn helpu i greu'r Cletwr yr ydym yn ei adnabod heddiw.

Gadawodd James Hobbs ei rôl fel rheolwr cynorthwyol yn yr haf a hoffem ddiolch iddo a dymuno'r gorau iddo yn ei rôl newydd.

Gadawodd Richard a Liz Spencer eleni ar ôl blynyddoedd o wirfoddoli yn y siop a gyda'r grŵp garddio ac mae ein dyled i'r ddau ohonynt yn un fawr. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Richard am ei waith ymroddedig fel aelod o'r Bwrdd ac yn arbennig am ei gefnogaeth eleni. Roedd yn aelod amhrisiadwy o'r bwrdd a bydd colled fawr ar ei ôl. Diolch i chi'ch dau.

Ymddeolodd Jen y Garej o wirfoddoli eleni hefyd a bydd colled fawr ar ei hôl. Bydd yr arwydd Jen at Work yn atgof tragwyddol o'i hymroddiad. Diolch Jen.

Bydd pob un ohonoch yn rhan o Gletwr am byth, ac wedi bod yn rhan bwysig o greu'r Cletwr sy'n bodoli heddiw.

Mae'r busnes wedi esblygu a thyfu ers ein dyddiau cynnar yn yr hen adeilad ac felly roedd yn bwysig ein bod fel bwrdd yn ailymweld â'r strwythur staffio gwreiddiol eleni, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i ddiwallu'r anghenion busnes. Yn dilyn ymgynghoriad gyda staff, ac adborth gan staff a gwirfoddolwyr, penderfynwyd gweithredu strwythur newydd. Newidwyd yr hen strwythur o reolwr cynorthwyol, a rheolwr cegin, gan rhoi rheolwr siop, rheolwr cegin, a chydlynydd caffi (yn adrodd i reolwr y gegin) yn lle.

Ni fyddem wedi gallu ymdopi â'r flwyddyn heriol hon heb ein staff a gwirfoddolwyr gwych, a hoffwn ddiolch i bob un ohonoch, hen a newydd, ar draws y busnes, am eich cyfraniad arbennig. Yn benodol, hoffwn ddiolch i Lauren ac Aaron a gamodd i fyny i fod yn rheolwr cegin a rheolwr siop. Mae Hanna hefyd wedi ymuno â ni fel cydlynydd caffi.

Gobeithio bod y rhan fwyaf ohonoch wedi cael cyfle i ddod i adnabod ein rheolwr busnes newydd Chloe Birds dros y misoedd diwethaf. Ymunodd Chloe â ni ar ddechrau tymor prysur yr haf ac rydym yn ffodus iawn ei bod yn dod â phrofiad manwerthu ynghyd â phrofiad yn y sector gwirfoddol, ac yn bwysicaf oll, dealltwriaeth o bwysigrwydd Cletwr i'n cymuned, ac ymrwymiad i'n hethos.

Mae llawer o ddigwyddiadau a phrosiectau cyffrous wedi bod yng Nghletwr eleni, ac roeddem yn falch o allu cynnal y noson agored i ganiatáu i aelodau, gwirfoddolwyr a staff roi adborth i'r bwrdd. Bydd Rachel yn rhoi trosolwg byr i ni o ddigwyddiadau eleni a bydd Helen yn siarad am y cynnydd a wnaed yn dilyn adborth o'n noson agored.

Hoffwn longyfarch a diolch i'r tîm a greodd y tecstil Gwrid y Gors, gan ddathlu gwyfyn prin iawn sydd i'w gael ar Gors Fochno. Yn ogystal â'r gwyfyn, mae'r tecstil yn arddangos rhai o'r agweddau pwysig a ddiddorol natur a'r dirwedd yn y rhan hon o Ogledd Ceredigion, ac mae'n ychwanegiad gwych i'r adeilad.

Yng ngeiriau Shelagh a fu'n allweddol wrth roi'r prosiect at ei gilydd:

Dechreuodd y prosiect yn 2020 diolch i gyllid gan Sefydliad Teulu Ashley, ond newidiwyd y cynlluniau gwreiddiol yn sgil y pandemig a'r cyfnod clo. Wrth golli'r cyfarfodydd cyfeillgar yn y caffi, ffurfiwyd grŵp brwdfrydig i gyfathrebu a gweithio trwy Zoom, a chychwynnodd y prosiect tecstilau. I rai, fe wnaeth y prosiect leihau unigedd yn ystod Covid: "roedd creu cysylltiadau trwy gyfarfodydd fideo a gweithio drwy'r prosiect gam wrth gam yn rhoi rhywfaint o strwythur a ffocws i'r wythnos", ac roedd y prosiect yn rhoi cymorth i rai aelodau gyda'r straen o fod yn ofalwr neu fyw gyda salwch difrifol.

Bu'r artist Elin Vaughan Crowley, sydd â phrofiad eang o arwain prosiectau celfyddydau cymunedol, yn helpu'r grŵp i ddarganfod a darlunio'r pethau sy'n cael eu gwerthfawrogi ym mhentrefi Tre Taliesin a Thre'r Ddôl a'r ardal. Cymerodd Elin y darluniau unigol a'r printiau leino a wnaed gan aelodau'r grŵp a chreu cynllun bendigedig gyda Gwrid y Gors yn ei ganol.

Daeth y dyluniad yn fyw gydag amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys brodwaith pwyth, crosio, appliqué a ffeltio nodwydd. Datblygodd y prosiect wrth i fwy o bobl gymryd rhan a chafodd ei gwblhau ym mis Awst 2022.

Mae tecstil Gwrid y Gors yn arddangos brwdfrydedd y gymuned greadigol yn ardal Llangynfelyn ac o rôl Cletwr wrth ddod â phobl ynghyd.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i waith anhygoel y grŵp garddio a'r arddangosfeydd arbennig y maent wedi'u creu. Hoffwn eu llongyfarch am ŵyl bryfed peillio lwyddiannus a hefyd am ennill y statws o fod yn 'Caru Gwenyn'. Rwy'n argymell yn fawr eich bod yn dilyn eu tudalen Facebook 'Paradwys i Beillwyr' am awgrymiadau defnyddiol ar sut i wella'ch gardd ar gyfer pryfed peillio.

Wrth edrych at y dyfodol mae'n rhaid i ni wynebu'r ffaith bod Cletwr fel busnes yn wynebu cyfnod ansicr iawn ar hyn o bryd. Gyda chostau ynni cynyddol, ac argyfwng costau byw sy'n effeithio'n ddifrifol ar allu gwario cwsmeriaid, mae'n hollbwysig ein bod ni fel bwrdd yn gweithio'n agos gyda'r rheolwr busnes er mwyn adolygu ein harferion gwaith yn rhagweithiol ac yn gyson. Ein blaenoriaeth fel bwrdd yw sicrhau bod Cletwr yn parhau i redeg dros ein cymuned, a hoffem ailadrodd ein hymrwymiad i hyn, ac i chi.

Rydym yn ffodus iawn yn ein staff a'n gwirfoddolwyr ym mhob rhan o'r busnes, ac mae eu brwdfrydedd a'u hegni a'u gallu i addasu, yn fy nghyffroi ar gyfer y dyfodol a'r hyn y gellir ei gyflawni.

Mae Cletwr yn arbennig, nid adeilad yn unig ydyw, rydym yn gymuned, ac rwyf mor ddiolchgar i bob un ohonoch sy'n rhan ohono. Diolch.